Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Llandaff House**

**6 Heol Mwrwg**
**Llangennech**
**Llanelli**
**SA14 8UA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

23/9/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chartref Gofal Llandaff House

| | |
|---|---|
| Math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion heb ofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Cathedral Care Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 21 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 29/1/2020 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb


Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn hapus ar y gofal a ddarperir yn Llandaff House. Dywedodd un cynrychiolydd wrthym, *"Fe allwn ni fod yn dawel ein meddwl gan wybod ei bod hi mewn amgylchedd saff a diogel".* Mae'r staff gofal yn brofiadol ac yn barchus ac yn cael eu harwain gan gynlluniau gofal ac asesiadau risg cyfredol.

Mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwyr ac er eu bod yn teimlo'n hyderus i fynd at yr uwch-aelodau o staff ar unrhyw adeg, nid yw sesiynau goruchwylio unigol yn cael eu cynnal yn chwarterol fel sy'n ofynnol.

Mae'r amgylchedd yn hwyluso ffordd o fyw i'r bobl sy'n byw gyda dementia, ac yn eu cefnogi, ac mae archwiliadau rheolaidd yn sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

Mae'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwr yn ymdrechu i wella'r gwasanaeth yn barhaus, fodd bynnag nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr adroddiadau adolygu ansawdd gofal bob chwarter a bob chwe mis. Mae angen mwy o fanylion yn yr adroddiadau hyn i adlewyrchu barn y bobl a'r gwelliannau sy'n cael eu gwneud. Mae'r rheolwr yn newydd i'r rôl ac mae'n diweddaru polisïau a gweithdrefnau ac mae'n awyddus i wella canlyniadau i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael eu trin ag urddas a pharch gan staff gofal sy'n eu hadnabod yn dda. Gwelsom ryngweithio cadarnhaol rhwng y staff gofal a'r rhai y maent yn gofalu amdanynt, gan ddangos caredigrwydd a thosturi gwirioneddol. Dywedodd aelod o deulu wrthym, *"Mae bob amser wedi gwisgo'n dda ac yn hapus, does gen i ddim pryderon amdano fe".* Dywedodd person arall wrthym, *"Mae hi'n cael trin ei gwallt bob dydd Mawrth".*

Mae'r pandemig wedi effeithio ar y gweithgareddau y gellir eu cynnig ond mae'r bobl yn cael cyfleoedd yn y cartref ac yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn pethau y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt. Dywedodd un person wrthym, *"Mae bob amser rhywbeth i'w wneud, rwy'n hoffi hynny. Rwy'n ôl i fod yn fi fy hun".*

Mae'r bobl yn cael eu hybu i gynnal cydberthnasau â ffrindiau ac aelodau o'r teulu ac mae ymweld yn cael ei annog. Yn ystod y pandemig, rhoddwyd trefniadau ar waith i hwyluso ymweliadau trwy ddarparu tŷ haf allanol. Yn dilyn hyn, ar ôl cwblhau'r heulfan, mae teuluoedd bellach yn mwynhau amser ymweld *"mwy hamddenol"* yn yr ardal ychwanegol hon.

Gwelsom y bobl yn gwneud dewisiadau amser cinio. Os nad yw'r bobl eisiau'r hyn sydd ar y fwydlen, cynigir dewisiadau eraill iddynt. Dywedodd un person wrthym, *"Mae'r bwyd yn rhagorol yma. Os nad ydw i'n hoffi rhywbeth, galla i ofyn am rywbeth arall".* Gwelsom brydau iachus a blasus yn cael eu paratoi gan y cogydd, a bod y staff gofal yn cofnodi cymeriant maeth a hylif y bobl er mwyn sicrhau bod eu hiechyd a'u llesiant yn cael eu hybu.

Mae'r gwasanaeth wedi'i effeithio yn yr un modd â llawer yn y sector yn ystod COVID-19 a gan yr heriau recriwtio presennol. Mae nifer o staff newydd wedi'u recriwtio'n ddiweddar ac mae niferoedd digonol o staff yn ystod pob shifft. Dywedodd aelod o staff wrthym *"mae rhai diwrnodau'n brysur, weithiau rydyn ni'n rhy brysur i sgwrsio".* Fodd bynnag, mae'r staff yn teimlo bod ganddynt ddigon o amser i ymateb i'r bobl mewn modd amserol. Dywedodd aelod o deulu hefyd *"Maen nhw (y staff gofal) mor brysur rai dyddiau ond does dim arwydd o hyn a dydyn ni byth yn cael 'Gofynnwch yn nes ymlaen, rydyn ni'n brysur'. Maen nhw'n ddi-fai".*

## Gofal a Chymorth

Gofelir am y bobl mewn amgylchedd cyfeillgar a hamddenol gan staff sy'n ofalgar ac yn barchus. Dywedodd un aelod o'r teulu wrthym, *“Maen nhw wedi bod yn fendigedig, rydyn ni'n lwcus ei bod hi wedi bennu yma”.* Dywedodd person sy’n defnyddio’r gwasanaeth wrthym, *“Byddwn yn argymell y lle hwn i unrhyw un. Maen nhw'n wych, maen nhw'n fy ngwneud i'n gyffyrddus gyda'r nos.”*

Cynhelir asesiadau gyda'r bobl, eu cynrychiolwyr a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol cyn iddynt symud i'r cartref i sicrhau y gellir diwallu eu hanghenion. Defnyddir yr wybodaeth a gesglir i lywio a datblygu cynlluniau gofal er mwyn sicrhau y darperir y lefel briodol o ofal a chymorth. Mae cynlluniau gofal yn drylwyr ac yn fanwl, fodd bynnag byddai'n fuddiol cynnwys dymuniadau a chanlyniadau'r bobl a sut yr hoffent i'w gofal gael ei ddarparu. Byddai cynlluniau'n elwa ar gael mwy o fanylion am hanes bywyd a chefndir y bobl gan y byddai hyn yn gwella dealltwriaeth y staff gofal o'r person y maent yn gofalu amdano, yn enwedig y rhai ag anawsterau cyfathrebu. Mae'r maes hwn yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan y rheolwr.

Mae cynlluniau gofal ac asesiadau risg yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y rheolwr a'r uwch-staff fel eu bod yn parhau i fod yn berthnasol. Mae'r pandemig wedi atal cynrychiolwyr rhag cymryd rhan yn y broses o adolygu cynlluniau. Dywedodd aelodau'r teulu y siaradwyd â nhw wrthym, er eu bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau i gynlluniau iechyd a gofal y person, yr hoffent gymryd rhan weithredol yn y broses adolygu a chael mwy o gyfleoedd i drafod cynlluniau gofal yn fanwl. Mae hyn yn rhywbeth y mae'r rheolwr yn gobeithio ei roi ar waith dros y misoedd nesaf. Rydym wedi cyhoeddi maes i'w wella a byddwn yn gwirio hwn yn ein harolygiad nesaf i sicrhau bod y bobl a'u cynrychiolwyr yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn cyfarfodydd adolygu cynlluniau gofal bob chwarter.

Mae'r bobl yn derbyn meddyginiaethau fel y rhagnodir. Mae meddyginiaethau'n cael eu storio'n ddiogel ac ar y tymheredd ystafell cywir. Gwelsom asesiadau risg meddyginiaeth yn y ffeiliau y gwnaethom edrych arnynt. Cynhelir archwiliadau gan y rheolwr ac mae gwiriadau stoc yn cael eu cwblhau ar ddechrau pob proses trosglwyddo shifft. Canfu archwiliadau fod rhai llofnodion ar goll ac roedd cofnodion yr edrychwyd arnynt yn ystod yr arolygiad hefyd yn dangos un llofnod ac nid y ddau sy'n ofynnol ar gyfer rhoi cyffuriau a reolir. Yn ystod yr arolygiad blaenorol, argymhellwyd bod canfyddiadau archwiliadau yn cael eu cofnodi ac yr eir ar drywydd staff unigol er mwyn lleihau nifer yr achosion o lofnodion a fethwyd. Awgrymwyd hefyd y dylid ystyried canlyniadau archwiliadau fel rhan o'r prosesau sicrhau ansawdd yn y cartref. Gan fod hyn yn parhau i fod yn bryder, rydym wedi dyroddi Maes i'w Wella. Yn gyffredinol, gall y bobl fod yn sicr bod eu hanghenion iechyd corfforol a llesiant yn cael eu diwallu.

## Yr Amgylchedd

Mae Llandaff House yn amgylchedd croesawgar a chartrefol. Mae'r adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw i safon dda ac mae'r tu mewn a'r tu allan i'r adeilad yn cael eu cadw yn lân ac yn daclus. Mae'r bobl yn gallu symud yn rhydd o gwmpas y cartref mewn amgylchedd diogel heb annibendod gyda chymorth rheiliau gafael. Mae nifer o lolfeydd lle gall y bobl ddewis eistedd, neu os yw'n well ganddynt, gallant dreulio amser yn eu hystafell. Dywedodd un person ei fod yn mwynhau eistedd yn y dderbynfa gyda ffrindiau lle gallant weld beth sy'n digwydd. Mae hwn yn wir yn lle poblogaidd i'r bobl eistedd ac ymlacio. Gwelsom hefyd bobl yn dewis eistedd yn ardal y patio yn yr awyr agored gan ei fod yn ddiwrnod heulog cynnes. Roeddent yn gallu cael mynediad at yr ardal hon yn annibynnol.

Mae'r ardal allanol yn ddiogel ac mae cloeon bysellbad ar y gât allanol, sydd angen cod i adael yr ardd. Mae synwyryddion larwm yn rhybuddio'r staff pan fydd allanfeydd/mynedfeydd yn cael eu defnyddio ac mae'n ofynnol i bob ymwelydd â'r cartref ganu'r gloch ar y drws ffrynt i gael mynediad. Yn dilyn digwyddiad diweddar lle gadawyd y giât allanol ar agor, mae mesurau diogelwch ychwanegol wedi'u rhoi ar waith i sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto.
Ychwanegwyd heulfan yn ddiweddar ac mae teuluoedd wedi mwynhau defnyddio'r lle i ymweld â'r bobl yn ystod y pandemig. Mae hefyd bellach yn cael ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau fel celf a chrefft, coginio, sesiynau maldodi a sesiynau ffitrwydd cadair. Cafwyd bwrdd pŵl bach hefyd ar gyfer rhywun oedd yn mwynhau gêm cyn i'w iechyd ddirywio.

Mae arwyddion dwyieithog yn cynorthwyo’r bobl i ddod o hyd i’w ffordd o amgylch y cartref ac mae gan ystafelloedd unigol ddrysau o liwiau gwahanol sy'n debyg i ddrws ffrynt. Mae ffotograff o'r person wedi'i arddangos y tu allan i lawer o'r ystafelloedd ar gyfer y rhai â phroblemau cof. Anogir y bobl i roi eitemau personol yn eu hystafelloedd, megis fframiau lluniau ac addurniadau.

Cynhelir gwiriadau cynnal a chadw a bydd yr unigolyn cyfrifol yn rhoi sylw i unrhyw fân atgyweiriadau i'r adeilad ei hun yn ôl yr angen. Mae gwaith wedi'i wneud yn ddiweddar yn dilyn ymweliad gan y gwasanaethau tân ac mae'r Hysbysiad Gorfodi, dyddiedig 14/10/2021 bellach wedi'i dynnu'n ôl oherwydd y camau gweithredu a gwblhawyd. Gwelsom dystiolaeth bod ymarferion tân a phrofion larymau tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd a bod offer diogelwch tân hefyd yn cael eu gwirio'n rheolaidd o fewn yr amserlenni a argymhellir.

Mae gweithdrefnau rheoli heintiau ar waith ac mae gweithwyr gofal yn defnyddio'r holl gyfarpar diogelu personol angenrheidiol wrth ddarparu gofal personol. Fodd bynnag, nid oedd rhai aelodau o staff yn gwisgo'u masgiau'n gywir. Trafodwyd hyn a chytunodd y rheolwr y byddai’n sicrhau bod y staff yn eu gwisgo'n gywir yn y dyfodol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Penodwyd rheolwr newydd yn ddiweddar ond mae wedi gweithio i'r gwasanaeth ers nifer o flynyddoedd ac felly mae ganddi wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r gwasanaeth. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwyr a'u bod yn gallu mynd atynt gydag unrhyw broblemau a allai fod ganddynt. Dywedodd un aelod o staff wrthym "*Mae'n lle hyfryd i weithio, mae'n hawdd mynd at bawb, ac mae pawb yn barod i helpu*". Er i'r staff ddweud wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, ni chynhelir goruchwyliaeth unigol reolaidd bob chwarter yn unol â'r rheoliadau. Dywedodd y rheolwr wrthym ei bod yn ad-drefnu llwythi gwaith ar hyn o bryd ac y bydd yn dyrannu'r rôl hon i uwch-ofalwr a bydd hyn yn flaenoriaeth yn y dyfodol. Gan fod hwn yn argymhelliad yn yr adroddiad arolygu blaenorol, byddwn yn dyroddi Maes i'w Wella a byddwn yn disgwyl gweld y staff yn cael eu goruchwylio bob chwarter yn yr arolygiad nesaf.

Mae'r rheolwr yn cael cymorth gan yr unigolyn cyfrifol sy'n ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd, ond nid yw wedi bod yn cael sesiynau goruchwylio un i un. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cynnal ymweliadau chwarterol a gwelsom y ddau adroddiad diweddaraf. Roedd yr adroddiadau yn gryno a chyffredinol iawn. Byddent yn elwa ar gael mwy o fanylion am farn y staff a'r bobl yn y gwasanaeth gan nad oes tystiolaeth yr ymgynghorwyd â'r bobl. Roedd yr adroddiad hefyd yn gwrth-ddweud y dystiolaeth a welsom ynghylch sesiynau goruchwylio'r staff. Mae'r adroddiad ansawdd gofal yn gyfredol, ond byddai'n fuddiol pe bai'n fwy manwl. Nid yw'n dangos yn glir bod trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a chymorth a ddarperir gan y gwasanaeth. Fodd bynnag, mae holiaduron wedi'u dosbarthu'n ddiweddar i'r bobl a'u cynrychiolwyr a byddwn yn disgwyl gweld yr adborth a dderbyniwyd yn cael ei ymgorffori yn yr adroddiad ansawdd gofal nesaf.

Roedd mwyafrif y polisïau a welsom yn gyfredol ond nid yw'r polisi hyfforddi a datblygu staff wedi'i ddiweddaru ers sawl blwyddyn ac mae'n cyfeirio at y safonau yn Lloegr. Byddwn yn disgwyl i hwn gael ei ddiweddaru ac rydym hefyd wedi cynghori y dylid ychwanegu dyddiadau at bob polisi er mwyn sicrhau cysondeb a thystiolaeth bod polisïau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Roedd y cofnodion recriwtio gweithwyr yn rhoi tystiolaeth bod y gwiriadau cyn cyflogaeth gofynnol ar waith cyn i weithwyr newydd ddechrau cefnogi'r bobl. Roedd hyn yn cynnwys gwirio geirdaon, dull adnabod ffotograff a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd bylchau mewn cyflogaeth yn cael eu harchwilio bob amser. Fel y nodwyd yn yr arolygiad blaenorol, rydym wedi dyroddi Maes i'w Wella a byddwn yn disgwyl i'r wybodaeth hon fod ar waith mewn arferion recriwtio yn y dyfodol.

| Crynodeb o'r diffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i’r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i’r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae’n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio’r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy’n defnyddio’r gwasanaeth, rydym yn amlygu’r rhain fel Meysydd i’w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes / Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Crynodeb |
| 35 | Ni allai'r darparwr ddangos hanes cyflogaeth llawn, ynghyd ag esboniad ysgrifenedig boddhaol o unrhyw fylchau mewn cyflogaeth ar gyfer holl weithwyr y gwasanaeth. | Newydd |
| 80 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi dadansoddi'r wybodaeth o archwiliadau meddyginiaeth yn effeithiol ac nid yw wedi nodi problem sy'n codi dro ar ôl tro gyda llofnodion a methwyd. Mae gan hyn y potensial i effeithio ar ddiogelwch a llesiant y bobl. Nid yw'r unigolyn cyfrifol ychwaith yn dangos ei fod wedi siarad ag unigolion sy'n gweithio yn y gwasanaeth, ac sy'n ei ddefnyddio. Mae angen gwybodaeth fanylach yn adroddiadau'r unigolyn cyfrifol i ddangos bod yr wybodaeth a gesglir yn cael ei defnyddio i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth. | Newydd |
| 36 | Nid yw’r rheolwr wedi cael ei oruchwylio ers cael ei ddyrchafu’n rheolwr ym mis Chwefror 2022. Nid yw'r staff wedi bod yn cael sesiynau goruchwylio unigol bob tri mis ac nid yw rhai aelodau o'r staff wedi cael eu goruchwylio ers sawl mis. | Newydd |
| 16 | Mae cynlluniau gofal unigol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ond nid yw pobl a'u cynrychiolwyr yn cael y cyfle i fod yn rhan o'r broses adolygu. | Newydd |

**Dyddiad cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Do_ Not_Delete